Proffil Swydd/Job Profile

Teitl y Swydd – Arweinydd Gwasanaeth - Therapydd Galwedigaethol

Post Title – Service Lead Occupational Therapist

Adran	Therapi Galwedigaethol
Department	Occupational Therapy

Division/Section	Occupational Therapy

Gradd/Grade Band Cyflog/Pay Band	8a/M

Rheolwr yn atebol i/ Managerial accountable to	Rheolwr Darparu Gwasanaeth/Service Delivery Manager
Yn adrodd i/ Reports To /	Rheolwr Darparu Gwasanaeth/Service Delivery Manager
Yn broffesiynol atebol i/ Professionally accountable to	Pennaeth Therapi Galwedigaethol/Head of Occupational Therapy

Rhif y Swydd/Post Number	032725

Paratowyd Gan/Prepared By	Jon Adams (Head of Occupational Therapy) Angharad Jenkins (Senior Delivery Manager Proactive and Planned Care)

Dyddiad/Date	23/10/2026

Prif Ddiben y Swydd

Gan adrodd ar y cyd i'r Pennaeth Therapi Galwedigaethol a'r Rheolwr Darparu Gwasanaethau, mae'r therapydd galwedigaethol ac arweinydd clinigol profiadol hwn yn gyfrifol am arweinyddiaeth broffesiynol a rheolaeth weithredol adran benodol o'r gwasanaeth therapi galwedigaethol. Ar gyfer y swydd hon, yr adran benodol yw;

- Therapi Galwedigaethol Cymunedol, fel rhan o Dimau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Sir Gaerfyrddin.
- Therapyddion galwedigaethol yn gweithio o fewn timoedd eraill Cyngor Sir Gâr - e.e. Tai, Bathodynnau Glas.

Cyfrifol am ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol o safon uchel yn y maes mae'n gyfrifol amdano, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyrraedd y safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a Choleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol (RCOT).

Gan weithio fel rhan o dimoedd therapi galwedigaethol ac arweinwyr uwch y sir, mae'r swydd hon yn helpu'r Pennaeth Therapi Galwedigaethol a'r Rheolwr Darparu Gwasanaethau i ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau gwasanaeth, sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol sefydliadol a blaenoriaethau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros brosiectau y cytunwyd arnynt gan gynnwys ail-ddylunio a gwella gwasanaethau therapi galwedigaethol yn weithredol o fewn y maes mae'n gyfrifol amdano, gweithio'n agos ac ar y cyd â chydweithwyr, proffesiynau eraill ac ar draws sefydliadau.

Mae gan ddeiliad y swydd arbenigedd clinigol mewn therapi galwedigaethol, gan gynnwys cynnal gweithgareddau ymchwil a darparu goruchwyliaeth glinigol uniongyrchol, mentora, goruchwylio achosion cymhleth ac addysg. Mae deiliad y swydd yn ymarferydd clinigol annibynnol, yn gallu asesu, trin/rheoli, gwerthuso, cyfeirio a rhyddhau. Dadansoddi ffeithiau a sefyllfaoedd cymhleth a chymharu ystod o opsiynau er mwyn diwallu anghenion unigol. Gall reoli cymhlethdod mewn ymarfer clinigol, gan ddefnyddio sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddol i ategu barn ddoeth, a gwneud penderfyniadau moesegol. Mae'r swydd yn cynnwys asesu a rheoli risg glinigol a herio eraill yn rhagweithiol ynghylch risg.

Fel therapydd galwedigaethol, mae'r swydd hon yn canolbwyntio ar wasanaethau a mentrau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu ac adfer, ailsefydlu perfformiad galwedigaethol, cydbwysedd galwedigaethol a chynhwysiant cymdeithasol. Mae deiliad y swydd yn cynghori ar, cefnogi, ac, o bosibl, arwain mentrau sy'n cynnwys Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Tai ac Addysg sy'n ceisio helpu pobl i gynnal iechyd a llesiant ac annibyniaeth bersonol.

Y Prif Ddyletswyddau

Rheoli Gwasanaethau

Darparu arweinyddiaeth glinigol arbenigol o ran Therapi Galwedigaethol i gynllunio, datblygu, a gwerthuso gwasanaethau, gan fod yn gyfrifol am reoli a darparu meysydd/prosiectau penodedig.

Datblygu cynlluniau ar gyfer ei faes gwasanaeth ei hun, sy'n cyd-fynd â chynlluniau Therapi Galwedigaethol a chynlluniau'r Sir. Bydd hyn yn cynnwys nodi bylchau mewn gwasanaethau, lle gall rôl seiliedig ar dystiolaeth therapi galwedigaethol fod yn absennol ar hyn o bryd, yn ogystal â deall a chymathu amcanion strategol sefydliadol, cynlluniau a blaenoriaethau strategol sefydliadol meysydd gwasanaeth eraill, proffesiynau a sefydliadau, sy'n rhyngwynebu â Therapi Galwedigaethol.

Rheoli tîm/maes gwasanaeth penodol. Mae hyn yn cynnwys rheoli adnoddau dynol ac adnoddau eraill, asesu a rheoli risg, perfformiad a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol.

Arwain maes gwasanaeth, ysgogi ac ysbrydoli staff i ymgysylltu, gweithredu'n effeithiol, ymddwyn yn dosturiol, a sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth gofynnol yn cael ei ddarparu.

Sicrhau bod gwasanaeth therapi galwedigaethol yn cael ei ddarparu'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn ddiogel o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys sefydlu a defnyddio blaenoriaethu clinigol a dyrannu a defnyddio adnoddau staff yn effeithiol yn ei faes cyfrifoldeb, yn seiliedig ar ddadansoddi risgiau, ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol.

Ymchwilio i ddigwyddiadau a chwynion yn y maes cyfrifoldeb ac ymateb i hynny. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am werthuso ymarfer ac ansawdd y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â rheoli achosion penodol, llunio ymatebion a datblygu a gweithredu cynlluniau gwella.

Sicrhau bod yr hyn a ddysgir gan ddigwyddiadau a chwynion yn ei faes cyfrifoldeb yn cael ei nodi a'i rannu'n briodol er mwyn llywio gwelliannau o safon.

Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu safonau, polisïau, canllawiau, llwybrau a phrosesau yn ei faes cyfrifoldeb ac ar draws y gwasanaeth fel y cytunwyd/dirprwywyd, i gefnogi gofal wedi'i gydlynu a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ansawdd a diogelwch, a gwell profiad i'r defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys cymhathu polisi ac arweiniad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ochr yn ochr â safonau proffesiynol, deddfwriaeth, ymchwil a phrofiadau a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth.

Cyfrifol am ddehongli polisïau ac arweiniad proffesiynol mewn perthynas â maes clinigol/gwasanaeth penodol, gyda rhyddid i weithredu, yn seiliedig ar ei ddehongliad ei hun o bolisïau sefydliadol/proffesiynol, gan ofyn am gyngor yn ôl yr angen.

Goruchwylio systemau ac arferion cadw cofnodion clinigol ac effeithiol o fewn ei faes cyfrifoldeb, gan sicrhau cydymffurfiaeth â HCPC, safonau RCOT a pholisi sefydliadol.

Hyrwyddo a dylanwadu ar eraill i ymgorffori gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/ar werthoedd yn ymarferol, gan gynnwys;

- Trafod gofal gyda defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr fel partneriaid cyfartal
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth roi adborth o'u profiad.

Rheoli ac adrodd ar berfformiad o fewn ei faes cyfrifoldeb i sicrhau bod modd cyflawni yn erbyn amcanion a thargedau sefydliadol a rhai Llywodraeth Cymru.

Nodi pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu gweithredol neu broffesiynol a allai beryglu diogelwch cleifion, gan fynd i'r afael â'r pryderon yn y maes cyfrifoldeb a/neu eu huwchgyfeirio'n briodol.

Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd fod yn rhan o ymagwedd hyblyg at fodel gweithio 7 diwrnod oherwydd anghenion y gwasanaeth ac ail-ddylunio'r gwasanaeth. Gall hyn gynnwys gweithio oriau anghymdeithasol ac ar benwythnosau.

Gwella Gwasanaethau

Mabwysiadu persbectif ledled y system i wella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y daith orau posibl i'r dinesydd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rolau clinigol dwyochrog ar draws asiantaethau a rhwng siroedd, ail-ddylunio rolau a datblygu llwybrau asiantaeth ar y cyd integredig.

Cyfrifol am gynnal archwiliad/ymchwil glinigol yn rheolaidd sy'n llywio arfer a gwelliannau i'r gwasanaeth o fewn therapi galwedigaethol.

Ymchwilio i sylfaen tystiolaeth glinigol, gan ddadansoddi tystiolaeth yn feirniadol er mwyn llywio datblygiad eich ymarfer eich hun, yn ogystal â llywio datblygiad safonau clinigol/ymarfer a gwella ansawdd ar gyfer y gwasanaeth.

Dethol a defnyddio dulliau gwella'n briodol i gyflawni a gwerthuso gwelliannau i'r gwasanaeth yn effeithiol.

Cefnogi datblygu canllawiau, safonau, llwybrau a/neu bolisïau un-ddisgyblaethol, amlddisgyblaethol a/neu bractis cyd-asiantaeth lleol, sy'n seiliedig ar arferion gorau. Arwain datblygiad a gweithrediad o fewn maes penodol, fel y cytunwyd.

Sefydlu a chynnal gwaith partneriaeth cadarn gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan ddefnyddio safbwyntiau a phrofiad defnyddwyr i wella'r gwasanaeth lleol.

Adolygu a diwygio rolau ac ymarfer clinigol i adlewyrchu gweithio cydweithredol / partneriaeth a'r cyfrifoldebau perthnasol.

Ymgymryd ag archwiliadau cadw cofnodion rheolaidd a gweithredu systemau i archwilio a gwella cadw cofnodion a rheoli gwybodaeth yn barhaus.

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau trwy brosesau a llwybrau symlach, a llai o ddyblygu o ran ymdrech.

Datblygu rhwydweithiau a gwaith partneriaeth cydweithredol ac effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid statudol ac anstatudol i gyflawni amcanion a chynlluniau gwasanaeth.

Gweithio ar y cyd â phroffesiynau eraill i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn hygyrch, yn ddarbodus ac yn ddiogel.

Defnyddio technolegau newydd yn effeithiol i wella annibyniaeth dinasyddion a hygyrchedd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.

Cyfathrebu

Sefydlu a chynnal fframwaith cyfathrebu effeithiol o fewn ei faes cyfrifoldeb i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth a bod cyfathrebu'n digwydd gyda nhw, gan ddefnyddio ystod o ddulliau a chyfryngau priodol, sy'n cynnwys arwain cyfarfodydd tîm effeithiol.

Sicrhau bod eich cyfathrebu eich hun a chyfathrebiadau o fewn y maes gwasanaeth dynodedig yn digwydd yn unol â gwerthoedd a pholisi sefydliadol a safonau proffesiynol.

Trefnu ac arwain cyfarfodydd aml-broffesiynol a/neu aml-asiantaeth gyda chydweithwyr o fewn y maes penodedig.

Cyfathrebu'n effeithiol a chreu rhwydweithiau a chysylltiadau gwaith da ag amrywiaeth eang o bobl, yn cynnwys:

- Uwch-reolwyr
- Uwch-glinigwyr
- Cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol
- Cydweithwyr o sefydliadau allanol a rhanddeiliaid eraill

Defnyddio sgiliau rhyngbersonol, trafod a dylanwadu i gyfathrebu'n effeithiol a sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar draws ystod o broffesiynau ac asiantaethau sy'n rhyngwynebu â therapi galwedigaethol.

Bod yn eiriolwr ar ran y claf, gan sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu hysbysu a'u cefnogi'n llawn.

Cyfryngu er lles gorau'r claf mewn sefyllfaoedd lle ceir perthynas heriol a gwrthdaro buddiannau.

Cyfathrebu gwybodaeth gymhleth gydag empathi mewn sefyllfaoedd a allai beri gofid.

Cynrychioli gwasanaeth therapi galwedigaethol o fewn cyfarfodydd/fforymau yn fewnol ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, fel y dirprwywyd gan y Pennaeth Gwasanaeth.

Cymryd rôl weithredol mewn gweithgorau a rhwydweithiau proffesiynol ac aml-ddisgyblaeth lleol a chenedlaethol.

Rhoi cyflwyniadau a gwybodaeth i amryw o grwpiau, gan gynnwys staff, cleifion/gofalwyr neu gydweithwyr o sefydliadau partner yn ogystal â rhoi cyflwyniadau mewn digwyddiadau a chynadleddau mewnol ac allanol.

Addasu dull o gyfathrebu ag eraill e.e. yn dibynnu ar y gynulleidfa a'r cyd-destun, gan ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau a chyfryngau i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu yn effeithiol.

Cyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol i amryw gynulleidfaoedd, gan gynnwys cyflwyno ffeithiau ac ystadegau cymhleth y mae angen eu dehongli a'u dadansoddi.

Llunio adroddiadau ysgrifenedig, gan gynnwys gwybodaeth briodol, cynlluniau gweithredu a methodoleg ar gyfer asesu effeithiolrwydd clinigol gwasanaethau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol lleol a chenedlaethol.

Cyllid ac Adnoddau

Rheoli cyllideb ddirprwyedig ar gyfer maes gwasanaeth penodol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau ariannol sefydliadau. Mae deiliad y swydd yn atebol i'r Pennaeth Gwasanaeth, sy'n dal cyfrifoldeb dros y gyllideb gyffredinol.

Yn unol â phwerau a ddirprwyir, bod yn llofnodwr awdurdodedig o fewn terfyn ariannol cytunedig. Mae hyn yn cynnwys pryniadau Oracle, treuliau, cymeradwyo taflenni amser ar gyfer staff asiantaeth.

Gweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaeth i nodi a gweithredu mentrau lleihau costau a sicrhau bod newidiadau y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu.

Cefnogi trafod, gweithredu a monitro cytundebau/contractau lefel gwasanaeth o fewn ei faes cyfrifoldeb.

Goruchwylio dosbarthu cyfarpar yn effeithiol ac argymhellion ar gyfer addasiadau amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth proffesiynol i'r Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol Integredig, gan gynnwys awdurdodi prynu cyfarpar arbenigol.

Cynllunio cyflawni gweithredol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion gofal doeth a fframweithiau sy'n seiliedig ar werth.

Cyfrifol am nodi, rheoli a monitro'n ofalus adnoddau, cyfarpar a deunyddiau yn ei faes cyfrifoldeb.

Datblygiad Personol, Datblygu Pobl a Rheoli Pobl

Bod yn arweinydd proffesiynol ar gyfer 33 o staff Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal â darparu goruchwyliaeth broffesiynol ar gyfer 5 rôl Arweinydd Tîm Therapi Galwedigaethol.

Cymryd rhan yn y prosesau PADR yn unol â pholisi'r sefydliad ac mewn partneriaeth ag adolygydd, nodi a mynd i'r afael â'u hanghenion dysgu eu hunain er mwyn cyflawni amcanion.

Cynnal ei bortffolio datblygu personol ei hun i gwrdd â gofynion HCPC.

Arwain a rheoli tîm/timau sy'n cynnwys staff cofrestredig a staff sydd heb eu cofrestru, gan ddefnyddio egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol a gwerthoedd sefydliadol.

Cyfrifol am sicrhau recriwtio, dethol a sefydlu staff yn effeithlon i dimau, sy'n cyd-fynd â gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol.

Adolygu cymysgedd o sgiliau a darparu cyngor ynghylch cynllunio'r gweithlu yng nghyd-destun ffyrdd newydd o weithio.

Goruchwylio perfformiad staff, gan sicrhau bod systemau yn eu lle i nodi a rheoli perfformiad gwael er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu o fewn polisïau'r sefydliad a'r safonau a'r canllawiau sy'n cefnogi rheoleiddio proffesiynol.

Sicrhau cydymffurfiad â pholisïau sefydliadol a lle bo angen a lle bo'n briodol, cynnal ymchwiliadau disgyblu neu ymchwiliadau i achwyniadau.

Sicrhau bod pob aelod o staff yn y maes cyfrifoldeb yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant gorfodol/statudol.

Cynnal systemau dibynadwy o oruchwylio ac arfarnu gweithredol a phroffesiynol, gan hwyluso mynediad i ystod o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Darparu goruchwyliaeth glinigol, broffesiynol a gweithredol fel sy'n briodol i amryw ymarferwyr.

Mentora therapyddion llai profiadol ar gyfer achosion a nodwyd, gan roi ail farn a dangos sgiliau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r gallu i ddylanwadu ar newid ymarfer.

Nodi'r anghenion addysg a hyfforddiant o fewn y maes gwasanaeth, gan weithio gyda Dysgu a Datblygu ac eraill i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni addysg unigol ac aml-broffesiynol yn ôl y gofyn.

Cyfrifol am sicrhau bod systemau mewn lle i gefnogi arferion effeithiol a rhai sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac adolygu cymheiriaid e.e. Grwpiau Ymarfer Clinigol.

Darparu arweinyddiaeth broffesiynol wrth ddatblygu'r gweithlu therapi galwedigaethol o fewn y cyd-destun amlddisgyblaethol a thrawsnewidiad seiliedig ar werth.

Cefnogi datblygu a recriwtio'r gweithlu yn y dyfodol drwy gefnogi lleoliadau ymarfer therapi galwedigaethol israddedig o fewn maes gwasanaeth, yn ogystal â chynlluniau eraill, h.y. profiad gwaith, prentisiaid, digwyddiadau gyrfaoedd.

Dylunio a darparu hyfforddiant arbenigol a chyflwyniadau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rheoli'n effeithiol bryderon a gwrthdaro yn ei faes cyfrifoldeb, gan ddefnyddio polisïau sefydliadol a cheisio cefnogaeth fel bo'n briodol.

Prosesu Gwybodaeth

Dethol, dadansoddi a chyfuno ystod o wybodaeth i lywio ymarfer, arweinyddiaeth, cynllunio, rheoli gwasanaeth, a gwella ansawdd a hynny'n briodol. Mae ffynonellau data'n cynnwys deddfwriaeth berthnasol, tystiolaeth glinigol, polisïau sefydliadol a phroffesiynol, canllawiau, fframweithiau a safonau yn ogystal â data gwasanaeth, profiad defnyddwyr a chanlyniadau.

Adfer data o ystod o systemau electronig, ei gasglu a'i ddadansoddi i lywio cynllunio gwasanaeth lleol, gwella ac archwilio, yn ogystal ag ymateb i geisiadau ar hap am wybodaeth mewn modd amserol.

Llunio adroddiadau gwasanaeth a gwerthusiadau gan ddefnyddio gwybodaeth briodol.

Sicrhau bod systemau ar waith yn ei faes cyfrifoldeb sy'n cefnogi cadw at ofynion rheoli gwybodaeth.

Sicrhau bod systemau ar waith yn ei faes cyfrifoldeb a fydd yn cefnogi casglu a mewnbynnu data am weithgarwch gwasanaethau yn gywir ac yn amserol, yn unol â pholisi a gweithdrefn sefydliadol a rhai'r gwasanaeth.

Nodi a dylanwadu ar yr ystod o ddata sydd ei angen i lywio gwella a chynllunio gwasanaethau lleol.

Cadw'i gofnodion clinigol ei hun, staff a gwasanaeth yn unol â pholisi sefydliadol, rheoli gwybodaeth a chanllawiau proffesiynol, gan ddefnyddio'r systemau a'r gweithdrefnau gofynnol.

Iechyd a Diogelwch

Cyfrifol am asesu, monitro a gwella iechyd a diogelwch o fewn y maes cyfrifoldeb dynodedig yn unol â pholisïau sefydliadol, ac uwchgyfeirio risgiau a phryderon yn briodol.

Sicrhau bod amgylcheddau sy'n cael eu defnyddio gan staff therapi galwedigaethol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau Iechyd a Diogelwch proffesiynol gofynnol.

Cynnal asesiad risg a chadw cofrestr risgiau ar gyfer y maes cyfrifoldeb, a lywir gan bolisi sefydliadol, ac uwchgyfeirio risgiau'n briodol.

Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i liniaru a rheoli risgiau a gwella ansawdd a diogelwch ar gyfer y maes cyfrifoldeb.

Ansawdd

Cyfrifol am nodi cyfleoedd i wella ansawdd, gan arwain y gwaith o ddatblygu a goruchwylio cynllun gwella ansawdd parhaus yn y maes cyfrifoldeb.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gweithio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol gyda gwahaniaeth ac amrywiaeth, gan roi gwerthoedd, barn a dealltwriaeth defnyddwyr gwasanaeth unigol a gofalwyr wrth wraidd popeth a wnânt.

Gwerthfawrogi a hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn ei faes cyfrifoldeb ei hun. Mynd ymhellach na chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb er mwyn symud i sefyllfa lle mae ymrwymiad i'r angen i sicrhau cyfleoedd cyfartal a manteision amrywiaeth.

Ymdrech a'r Amgylchedd

Dangos deheurwydd mawr, cydlyniant, craffter gweledol, a sgiliau canfyddiadol i nodi diffygion gwybyddol, canfyddiadol, niwrolegol a chyhyrysgerbydol cleient drwy arsylwi ar dasgau bob dydd ac i gyflawni ymyriadau therapi galwedigaethol gofynnol.

Bydd yn gweithio'n hyblyg o wahanol safleoedd yn y Sir ac ambell waith ar draws 3 sir lle gall pellter teithio gynnwys gyrru hyd at 4 awr mewn 1 diwrnod o bryd i'w gilydd.

Ymweld â phobl yn y gymuned, gan gynnwys rhoi ail farn ynghylch rheoli achosion cymhleth, neu farn arbenigol.

Dod i gysylltiad â phob tywydd, ac, yn achlysurol, ag amodau amgylcheddol annymunol yn ystod ymweliadau cartref, er enghraifft baw, llwch, chwain, carthion a bwyd pydredig.

Gweithio fel ymarferydd annibynnol, gan dderbyn rheolaeth linell strwythuredig a goruchwyliaeth broffesiynol yn fisol.

Efallai na fydd cyngor ar gael ar unwaith i ddatrys problemau ac mae angen asesiadau risg cymhleth a phenderfyniadau annibynnol.

Cario cliniadur, papurau, cyfarpar ac ati yn rheolaidd.

Defnyddio cyfarpar ac adnoddau triniaeth y mae angen deheurwydd a chydlyniant ar eu cyfer.

Gweithio yng nghartrefi pobl a defnyddio cyfarpar, yn cynnwys plygu ac ymestyn mewn mannau cyfyngedig, h.y. ystafelloedd ymolchi.

Treulio cyfnodau sylweddol yn defnyddio bysellfwrdd/gliniadur yn ddyddiol.

Ysgrifennu adroddiadau gwasanaeth manwl a hir yn rheolaidd, sy'n gofyn am graffu ar dystiolaeth, gweithgarwch a strategaeth glinigol.

Angen rheoli blaenoriaethau sy'n mynd yn groes i'w gilydd yn aml a bodloni amserlenni heriol i gyflawni gwaith.

Ymchwilio a delio â pherfformiad gwael.

Ymchwilio i gwynion ynglŷn â gwasanaeth neu arfer unigolyn, sy'n aml yn heriol ac yn arwain at gryn drallod.

Delio â gwrthdaro yn y tîm fel mae'n codi.

Gweithredu polisïau disgyblu, galluogrwydd ac achwyniad yn achlysurol

Rheoli salwch staff a cheisiadau arbennig am wyliau, gan ddelio'n achlysurol â staff sydd mewn trallod.

Cyfleu gwybodaeth ynghylch perfformiad, safonau a llywodraethu a allai fod yn heriol ac a allai achosi gofid.

Ymdrin yn rheolaidd â chleifion a gofalwyr mewn sefyllfaoedd anodd, sy'n wynebu trallod ac, yn achlysurol, ymdrin ag unigolion sy'n ymddwyn mewn modd heriol. Gall hyn gynnwys cyfleu gwybodaeth a allai beri gofid o ran diagnosis ac effaith ar fywyd person.

Cymryd rhan mewn symud a thrin cleifion, h.y. defnyddio peiriant codi neu wthio cadair olwyn. Gall hyn gynnwys defnyddio technegau ansafonol i gefnogi adsefydlu

Angen delio ar unwaith â phryderon gweithredol gan ystod o wasanaethau ac â tharfu aml

Meini Prawf Hanfodol

Cymwysterau, Hyfforddiant Galwedigaethol ac Aelodaethau Proffesiynol

Gradd/Diploma mewn Therapi Galwedigaethol.

Wedi cofrestru gyda HCPC.

Addysg lefel Meistr neu dystiolaeth o brofiad cyfatebol neu gymhwyster sy'n berthnasol i rôl.

Sgiliau sy'n Ymwneud â'r Swydd a Galluoedd

Rhaid bod â'r gallu a'r awydd i gyflawni targedau ac amcanion mewn amgylchiadau heriol.

Rhaid gallu asesu a chydbwyso risg, datrys problemau a gwneud penderfyniadau rhesymegol.

Rhaid gallu blaenoriaethu a rheoli gofynion gwaith sy'n cystadlu â'i gilydd.

Rhaid bod â'r gallu i ddethol, dadansoddi, defnyddio a chyfathrebu gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd.

Rhaid gallu cyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac er mwyn gallu dylanwadu'n gadarnhaol, negodi, a chyfleu cyfarwyddiadau ac adborth yn glir.

Rhaid gallu dehongli canllawiau a deddfwriaeth mewn perthynas â'r rôl.

Rhaid meddu ar sgiliau bysellfwrdd safonol.

Rhaid gallu gwerthuso arferion a gwasanaethau, nodi gwelliannau o ran ansawdd, a gallu arwain a rheoli newid y cytunwyd arno.

Rhaid gallu adnabod a dadansoddi sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio ymarfer a gwella gwasanaethau.

Rhaid gallu teithio rhwng safleoedd a chynnal ymweliadau cartref yn y Sir yn amserol.

Gwybodaeth

Gwybodaeth drylwyr iawn mewn Therapi Galwedigaethol gyda thystiolaeth o ddysgu diweddar a pherthnasol yn gymesur â'r rôl a gofynion cofrestru HCPC.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch

Gwybodaeth a dealltwriaeth o fframwaith llywodraethu clinigol

Gwybodaeth am y strategaeth, gofynion a blaenoriaethau proffesiynol presennol.

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth berthnasol a'r strategaeth genedlaethol a lleol, y polisi a'r modd caiff ei gymhwyso i Therapi Galwedigaethol

Gwybodaeth eang am wasanaethau a strwythurau sy'n cysylltu'r gofal sylfaenol/cymunedol/eilaidd, yn ogystal ag iechyd/gofal cymdeithasol/tai/y trydydd sector i gefnogi gofal integredig.

Profiad

Profiad mewn arweinyddiaeth glinigol o fewn y proffesiwn.

Profiad o reoli pobl, gan gynnwys recriwtio, goruchwylio, arfarnu, rheoli perfformiad a datblygu staff.

Profiad o weithio fel therapydd galwedigaethol mewn ystod o leoliadau ac ar lefel uwch.

Profiad o waith amlasiantaeth a gwaith aml-broffesiynol.

Profiad o fod yn rhan o fforymau proffesiynol lleol/cenedlaethol

Profiad o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth wella gwasanaethau.

Profiad o lunio a gweithredu canllawiau a safonau.

Profiad o asesu a rheoli risg.

Rhinweddau Personol

Y gallu i arddel y gwerthoedd ac ymddygiadau personol canlynol yn ddyddiol -

- Urddas, Parch a Thegwch
- Uniondeb, Bod yn Agored, a Gonestrwydd
- Gofalgar, Caredig a Thosturiol

Y gallu i ddangos ymrwymiad i'n gwerthoedd sefydliadol -

- Cydweithio i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau gorau posib
- Ymdrechu i ddatblygu a chyflawni gwasanaethau rhagorol
  - Rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn

Hawdd mynd atoch a gallu gweithio ar y cyd.

Y gallu i arwain, ysgogi a gweithio'n effeithiol mewn tîm.

Hyder a hygrededd proffesiynol

Croesawu newid a datblygiadau newydd.

Dangos brwdfrydedd ynghylch y swydd ac ymrwymo iddi.

Meddu ar wytnwch ac ymagwedd hyblyg at ymateb i ofynion heriol ac annisgwyl.

Meini prawf dymunol

Hyfforddiant a/neu gymhwyster rheoli/arwain cydnabyddedig

Cymryd rhan weithredol mewn rhwydwaith clinigol/grŵp o ddiddordeb arbenigol

Cymhwyster/hyfforddiant i gefnogi Addysg Ymarfer/ Asesydd Gweithle/ Goruchwyliaeth/ Hyfforddi

Profiad o waith asiantaeth ar y cyd (integredig).

Profiad o fonitro contractau.

Profiad o reoli pryderon proffesiynol ac ymchwilio iddynt.

Profiad o ymchwilio i gŵynion ac ymateb iddynt.

Profiad o gyflwyno mewn cynadleddau a/neu ddigwyddiadau cyhoeddus.

Profiad o gyflwyno posteri cynhadledd neu erthyglau i'w cyhoeddi.

Siaradwr Cymraeg - (Lefel 1)

Gellir gweld manylion llawn ynglŷn â'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â lefel 1 ar waelod y dudalen hon

Cymraeg Lefel 1

(Noder bod lefel 1 mewn Cymraeg llafar yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd benodol hon)

Gwrando/Siarad: Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati. Cyfarch a deall cyfarchiad. Defnyddio geiriau ac ymadroddion bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi, ac ati. Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / disgwyliedig gan ddefnyddio iaith syml e.e. 'Ga' i siarad â…'. Nodi ceisiadau syml ac yn dilyn hynny gofyn cwestiynau / gwneud ceisiadau ychwanegol, hyd at ryw bwynt.

Darllen/Deall: Deall geiriau a brawddegau syml pwysig ynghylch materion cyfarwydd / disgwyliedig sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau.

Ysgrifennu: Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad y cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.

Sgiliau Iaith a Chyfathrebu

Cliciwch ar y ddolen Beth yw lefel eich gallu?

Cymraeg	**Sgiliau Llafar Lefel 1**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 1**
Saesneg	**Sgiliau Llafar Lefel 5**	**Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5**
Arall (nodwch)		

GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS)
Gall fod gwiriadau DBS yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi lle bydd angen gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Mae'r canlynol yn ofynnol ar gyfer y swydd hon Adran A – y math o ddatgeliad **Datgeliad Manwl gan wirio'r rhestr wahardd** Adran B – y math o weithlu **Y gweithlu oedolion**
Y RHESWM
Gweithio gydag oedolion agored I niwed

UNRHYW WYBODAETH ARALL

Main Purpose of Job

Reporting jointly to the Head of Occupational Therapy and Service Delivery Manager, this experienced occupational therapist and established clinical leader is responsible for the professional leadership and operational management of a defined section of the occupational therapy service. For this post the defined section is;

- Community Occupational Therapy, as part of Integrated Health & Social Care Teams in Carmarthenshire
- Occupational therapists working within other Carmarthenshire County Council teams – e.g. Housing, Blue Badges.

Responsible for the delivery of a high quality, safe and effective service, in area of responsibility, that is evidence based and meets the professional standards required by Health and Care Professions Council (HCPC) and Royal College of Occupational Therapists (RCOT).

